PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Llun, 29 Tachwedd 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd I.W. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
S.M. Allen, K.V. Broom, K. Davies, R.E. Evans, W.T. Evans, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas, G. Thomas a D.T. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
A. Bracey, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
A. Williams, Pennaeth Y Gwasanaethau Integredig
C. Richards, Uwch Reolwr Diogelu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 2.00 yp - 3.50 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B.A.L. Roberts a J. Tremlett (yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

Ar ran y Pwyllgor, bu i'r Cadeirydd gydymdeimlo â'r Cynghorydd J. Tremlett ar farwolaeth ei mab a'i gŵr.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATED I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Y Cynghorydd	Rhif(au) y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd Kevin Madge	**4.** Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (2020/21)	Ei ferch yn gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU OEDOLION A THREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS) (2020/21)

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, a roddai wybodaeth am rôl,

swyddogaethau a gweithgareddau'r Awdurdod o ran Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Fel y sefydliad statudol sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gael trefniadau effeithiol i sicrhau bod oedolion agored i niwed yn cael eu diogelu rhag niwed. Roedd yr Awdurdod yn cyflawni ei rôl mewn partneriaeth agos â Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a sefydliadau statudol ac anstatudol eraill. Yr Awdurdod oedd hefyd y corff goruchwylio ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am rai o'r prosesau, arferion a gweithgareddau perfformio allweddol.

Fel y corff goruchwylio ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, sicrhaodd yr Awdurdod Lleol fod rhai o'r dinasyddion mwyaf agored i niwed yn cael eu diogelu'n briodol. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y trefniadau DoLS presennol a'r newidiadau sydd i ddod.

Roedd yr adroddiad yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020/21 ac yn crynhoi cyd-destun cenedlaethol, rhanbarthol a lleol Diogelu Oedolion ac yn darparu amrywiaeth o wybodaeth gan gynnwys:-

- Y sefyllfa strategol ranbarthol a chenedlaethol
- Trefniadau gweithredol lleol
- Archwiliadau ac Arolygiadau
- Gwybodaeth am berfformiad a gweithgarwch

Gofynnwyd nifer o gwestiynau ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Dyma'r prif faterion:

- Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r sesiynau codi ymwybyddiaeth a gyflwynwyd gan y tîm.
  Dywedodd yr Uwch-reolwr Diogelu / Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DOLS) fod y tîm wedi cyflwyno sesiynau hyfforddiant / codi ymwybyddiaeth rheolaidd ynghylch diogelu a bod y rhain yn sesiynau â thema i ymarferwyr. Dywedwyd bod y sesiwn wedi bod yn llwyddiannus ac wedi rhoi cyfleoedd i'r tîm ofyn cwestiynau pwysig ynghylch diogelu.
- Gofynnwyd pa effaith yr oedd Rôl y Swyddog Ymholiadau (Dyletswydd) newydd wedi'i chael ar y tîm craidd.
  Dywedodd yr Uwch Reolwr Diogelu / DoLS mai amcan y rôl hon oedd helpu i sicrhau bod achosion yn cael eu datrys o fewn 7 diwrnod ac i atal uwchgyfeirio achosion. Teimlwyd bod y rôl hon wedi lleihau nifer yr achosion a uwchgyfeiriwyd.
- Cyfeiriwyd at adroddiad Archwilio Cymru a soniodd fod Sir Ddinbych wedi'i chydleoli ag asiantaethau partner. Gofynnwyd a oedd Sir Gaerfyrddin yn ystyried rhoi'r model hwn o weithio ar waith.
  Dywedodd swyddogion fod ymchwil wedi dangos nad oedd ateb delfrydol ac nad oedd cydleoli o reidrwydd yn arwain at ganlyniadau gwell. Dywedwyd mai'r allwedd i gyflawni canlyniadau cadarnhaol oedd drwy sicrhau bod seilwaith ar waith i hwyluso cyfathrebu ac ymatebion da.
- Gofynnwyd i swyddogion pam mai anaml iawn y defnyddiwyd y Gorchymyn Cymorth Amddiffyn Oedolion a oedd ar gael ers 2014.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai achosion o dan rai amgylchiadau gael eu datrys o dan ddeddfwriaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl neu drwy'r Llys Gwarchod gan olygu nad oedd angen gorchmynion cymorth.

- Cyfeiriwyd at y pum argymhelliad a wnaed gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
  Dywedodd swyddogion mai'r argymhellion oedd rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu strategaethau a chanllawiau.
- Gofynnwyd a oedd y gallu i gael mynediad i gartrefi gofal wedi gwella.
  Dywedodd yr Uwch-reolwr Diogelu / DoLS fod mynediad i gartrefi gofal wedi bod yn heriol yn ystod y cyfyngiadau symud ond bod y sefyllfa bellach wedi gwella. Dywedwyd bod canllawiau hefyd wedi'u newid a bod yr Awdurdod bellach yn mynnu asesiadau wyneb yn wyneb.
- Gofynnwyd pa mor hawdd oedd cael gafael ar ddata a'i rannu rhwng y gwahanol asiantaethau.
  Er nad oedd systemau TG wedi'u hintegreiddio, dywedodd swyddogion fod protocolau rhannu data a oedd yn golygu bod asiantaethau'n rhannu gwybodaeth berthnasol a chymesur a oedd yn caniatáu i benderfyniadau gwybodus ac asesiadau risg gael eu gwneud.
- Cyfeiriwyd at y gostyngiad yn nifer yr ymholiadau a wnaed o fewn 7 diwrnod yn chwarter 4. Gofynnwyd a oedd hyn yn bryder a beth oedd y rhesymau dros y gostyngiad.
  Dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylai ymholiadau diogelu fel arfer cael eu gwneud o fewn 7 diwrnod; fodd bynnag, ni ddylid eu rhuthro. Mae sawl ffactor wedi cyfrannu at y duedd ar i lawr gan gynnwys cymhlethdod sefyllfaoedd a'r diffyg staff oedd ar gael mewn asiantaethau partner yn ystod y pandemig. Dywedwyd bod y sefyllfa eisoes wedi gwella eleni.
- Mynegwyd pryder ynghylch nifer yr ymholiadau ynghylch cartrefi gofal.
  Dywedodd swyddogion fod cartrefi gofal yn dda am hunan-adrodd er bod y rhain mewn llawer o achosion yn bryderon lefel isel ac nid yn ddifrifol. Dywedwyd hefyd fod gan Sir Gaerfyrddin nifer uchel o gartrefi gofal a fyddai'n effeithio ar yr ystadegau.
- Gofynnwyd pam fod nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ond na ddyrannwyd aseswyr ar gyfer chwarter 4 yn dal i fod yn uchel.
  Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod dyfarniad Gorllewin Swydd Gaerlleon yn 2014 wedi arwain at ôl-groniad o achosion dros nos ond rhoddwyd sicrwydd bod gan yr Awdurdod broses drylwyr o sgrinio i sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn cael blaenoriaeth. Y gobaith oedd, gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, y byddai'r asesiadau'n cael eu cwblhau o fewn 3 mis.
- Gofynnwyd faint o bwysau y bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd yn ei roi ar y gwasanaeth gan y bydd bellach yn berthnasol i bobl ifanc 16 ac 17 oed.
  Dywedodd swyddogion y rhagwelwyd y byddai'r niferoedd yn cynyddu, ond byddai fframwaith Trefniadau Amddiffyn Rhyddid hefyd yn symleiddio'r asesiad. Wrth baratoi ar gyfer gweithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid, roedd y rhanbarth wedi cytuno i gynnal ymarfer cwmpasu sy'n ceisio rhoi gwybod faint o bobl fyddai â hawl i'r trefniadau diogelu. Y gobaith oedd y byddai'r ymarfer hwn yn helpu i ragweld y galw ac unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran hyfforddiant/adnoddau.
- Gofynnwyd sut y gallem fod yn sicr bod y canlyniadau a gyflawnwyd yn gadarn.

Nododd swyddogion bwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth sefydlu'r lefel briodol o gymorth a bod gan bob achos gynllun gweithredu ac argymhelliad o ran ymchwiliad.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

5. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:

- Cynllun Gweithredu Dementia
- Y wybodaeth ddiweddaraf am Ofal Preswyl

PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.

6. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 20 Rhagfyr 2021.

7. DIWEDDARAF AM WEITHREDIADAU AC ATGYFEIRIADAU'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad diweddaru a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, a'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o'r cyfarfodydd blaenorol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 5ED HYDREF, 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 5 Hydref, 2021 gan ei bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**